## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2014 (Papur 6 Rhan 1)**
**Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2009-10**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 8 Gorffennaf 2010
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Iwan Williams, est 8039

# Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon y Cynulliad Cenedlaethol o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn*

**1.0 Diben a chrynodeb o'r materion**

**1.1** Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â chopi electronig o Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Mae cynnwys yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyflawniadau deddfwriaethol y Cynulliad yn ystod deng mlynedd o ddatganoli.

**2.0 Argymhellion**

**2.1** Gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo'r adroddiad. Cyhoeddir yr adroddiad ddydd Iau 15 Gorffennaf, yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn.

**3.0 Trafodaeth**

**3.1** Mae fersiwn ddrafft yr Adroddiad Blynyddol sydd i'w weld yn Atodiad A sydd ynghlwm, yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiynwyr ac ar waith prawf ddarllen terfynol.

**3.2** Dim ond ar-lein ar wefan y Cynulliad y bydd fersiwn llawn o'r adroddiad ar gael a hynny ar 15 Gorffennaf fel dogfen pdf.

**3.3 Bydd y ddogfen ar-lein yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau ar gyfer gwefannau a bydd ar gael i bob defnyddiwr. Yn ogystal â'r fersiwn pdf, bydd fersiwn testun yn unig ar gael hefyd.**

**3.4 Bydd crynodeb o'r adroddiad printiedig ar gael ar gyfer ei ddosbarthu mewn digwyddiadau ac yn y Senedd a'r Pierhead.**

**3.6 Dyma drosolwg o gynnwys yr adroddiad:**

- **rhagair gan y Llywydd;**
- **cyflwyniad gan y Prif Weithredwr;**
- **Comisiwn y Cynulliad, Comisiynwyr a'r Bwrdd Rheoli;**
- **crynodeb o gyflawniadau yn ystod degfed flwyddyn datganoli;**
- **blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod;**
- **deddfwrfa sy'n ymddangos – deddfwriaeth yn ystod deng mlynedd o ddatganoli;**
- **cyflawniadau deddfwriaethol yn ystod y trydydd Cynulliad;**
- **adolygiad o'r flwyddyn ddeddfwriaethol;**
- **dyfodol deddfwriaeth yng Nghymru;**
- **ailagor y Pierhead;**
- **sicrhau Cynulliad sy'n fwy tryloyw; a**
- **Datganiad o Gyfrifon 2009-10.**